Beth sydd ei angen arnoch i ddod o hyd i'r rhif?

0	1	2	3	4	5	6	7	8	9
10	11	12	13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26	27	28	29
30	31	32	33	34	35	36	37	38	39
40	41	42	43	44	45	46	47	48	49
50	51	52	53	54	55	56	57	58	59
60	61	62	63	64	65	66	67	68	69
70	71	72	73	74	75	76	77	78	79
80	81	82	83	84	85	86	87	88	89
90	91	92	93	94	95	96	97	98	99

Isod, mae yna wyth cliw y gallwch eu defnyddio i ddod o hyd i rif arbennig yn y sgwâr cant. Beth yw'r rhif?

Mae pedwar o'r cliwiau yn angenrheidiol ar gyfer dod o hyd i'r rhif.

Mae pedwar o'r cliwiau yn wir ond yn gwneud dim i'ch helpu i ddod o hyd i'r rhif.

Allwch chi benderfynu pa bedwar cliw sydd yn eich helpu, a pha bedwar cliw sydd ddim yn eich helpu?

Cliwiau:

Mae'r rhif yn odrif.

Mae'r rhif yn fwy na 9.

Mae'r rhif yn llai na 200.

Nid yw'r rhif yn lluosrif 10.

Mae digid unedau'r rhif yn fwy na'i ddigid degau.

Mae'r rhif yn lluosrif 7.

Mae digid degau'r rhif yn odrif.

Nid yw'r rhif yn lluosrif 11.